



Dyfodol Byd-eang GwE

ITM / Newyddlen Ieithoedd Rhyngwladol

Sector Cynradd



RHIFYN 2: Tachwedd-Rhagfyr 2021

RHY DDA I'W GOLLI!

Paratoi at y Cwricwlwm newydd i Gymru:

Tîm Cynradd Dyfodol Byd-eang GwE ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol :

Mae ein 9 Ysgol Arweiniol a'n hymarferwyr Ieithoedd Rhyngwladol yng ngogledd Cymru ar gael ar gyfer cefnogaeth ysgol-i-ysgol, neu i ateb unrhyw gwestiynau am sut i **gorffori Ieithoedd Rhyngwladol yn eich Cwricwlwm**.

Ein nod yw datblygu ein rhwydwaith ac arfer da gyda phob ysgol. Am ragor o wybodaeth, neu i gael eich ychwanegu at ein rhestr bostio, mae croeso i chi gysylltu â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru neu unrhyw un o'r Ysgolion Arweiniol (gweler manylion isod).



Ieithoedd Rhyngwladol yn y cynradd: sesiynau galw heibio - Dyfodol Byd-eang GwE

Dewch i ymuno â ni am sesiwn anffurfiol iawn i ddod i 'nabod y tîm, datblygu rhwydwaith cydweithredol a chefnogol ar draws y rhanbarth a rhannu ein profiadau wrth ddatblygu Ieithoedd Rhyngwladol yn y cynradd.

Mae croeso i bawb ddod ac aros yn y cyfarfod am faint bynnag y dymunant.

Rydym yn deall y bydd rhai ysgolion wedi cychwyn ar eu taith tuag at gyflwyno Ieithoedd Rhyngwladol, efallai na fydd rhai wedi cael amser i feddwl amdano, ac efallai fod y syniad yn ddigon i godi ofn ar eraill. Gyda'n gilydd, gallwn ymateb i'r her o'n blaenau ac edrychwn ymlaen at gyfarfod â chi gyd.

Bydd ein cyfarfod cyntaf **ddydd Iau, 11 Tachwedd**. Bydd y cyfarfod yn dechrau am **3:45pm** a byddwn ar gael tan 4:30pm. Cofrestrwch ar G6 a galwch heibio os allwch chi, pan allwch chi.

Dysgu Proffesiynol Dyfodol Byd-eang GwE i athrawon cynradd: corffori Ieithoedd Rhyngwladol yn y cwricwlwm.

Dewch i ymuno â **thîm PowerLanguage** mewn sesiwn ymarferol ar addysgu dysgu iaith wrth i chi baratoi a chynllunio ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol o fewn Cwricwlwm i Gymru 2022.

Cewch archwilio syniadau newydd o Lwyfan PowerLanguage gan gynnwys adnoddau newydd sy'n gysylltiedig â COP 26!

Wedi'i gynllunio ar y cyd â thîm Dyfodol Byd-eang GwE, bydd y sesiwn hwn yn fodd i athrawon ddatblygu syniadau a gwella hyder wrth gyflwyno Ieithoedd Rhyngwladol yn eu cwricwlwm. Ble bynnag ydych chi ar eich taith i weithredu'r cwricwlwm, mae croeso i bawb i'r sesiwn, ac edrychwn ymlaen at eich gweld chi yno **ddydd Llun 22 Tachwedd, 3.45-4.45pm**.

PowerLanguage
SCHOOLS ○○○

Cliciwch yma i gofrestru: <https://pwlg.link/3BiMluu>

Am ragor o wybodaeth neu gymorth, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

Dysgu proffesiynol: paratoi at CiG

Mae sesiynau ar y gweill gydag arbenigwyr megis Rachel Hawkes a Gillian Campbell-Thow i weithio ar ddatblygiadau ar gyfer ieithoedd Rhyngwladol a'r CiG. Hoffem i'r sesiynau hyn ac/neu sesiynau dilynol ddigwydd dros amser drwy gydol y flwyddyn, hyd at yr haf 2022 (dyddiadau i ddilyn).

Yn y lle cyntaf, cynhelir y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd ar ôl ysgol gan yr ymddengys mai dyma'r adeg fwyaf cyfleus i ysgolion ar hyn o bryd, ond byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn rheolaidd ac yn ôl pa bryd y mae aelodau a siaradwyr ar gael.

Pan fo'n bosib, byddwn yn ceisio recordio prif rannau'r cyfarfodydd/gweminarau fel y gall athrawon nad ydynt yn gallu mynychu ddal i fyny neu wyllo eto cyn y sesiwn nesaf.

Felly, yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf, byddwn yn cyflwyno cynnig cyfoethog, perthnasol ac er effaith, ond sydd hefyd yn hyblyg i ysgolion ac athrawon.

Gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol.

Peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni unrhyw bryd am ragor o wybodaeth neu gymorth.

Gwybodaeth bellach am ein siaradwyr gwadd:

Mae Gillian Campbell-Thow yn Swyddog Gwella Ieithoedd Modern / Arweinydd Strategol dysgu ac addysgu iaith ac addysg trwy gyfrwng y Gaeleg yn yr Alban, ble gwelwyd yr un newidiadau â ni gyda'r Cwricwlwm yn 2014.

Yr Athro Rachel Hawkes yw Cyd-gyfarwyddwr NCELP / Cyfarwyddwr Addysg ac Ymchwil Rhyngwladol y [Comberton Academy Trust](#). Mae wedi cynhyrchu toreth o adnoddau a gwaith ymchwil addysgegol i ieithoedd tramor modern yn y cynradd a'r uwchradd, ac mae'n brif siaradwraig yn aml mewn cynadleddau iaith ar hyd a lled y Deyrnas Unedig.

Roedd y ddwy ar banel Languagenut MFL Question Time haf diwethaf.

<https://www.youtube.com/watch?v=fRi5GGTdkLE>

Canolfan Cefnogaeth GwE: Adnoddau

Beth am fwrw golwg ar y diweddariadau a'r holl wybodaeth am gymorth ac adnoddau Dyfodol Byd-eang GwE.

Mae'r dudalen ar Ganolfan Cefnogaeth GwE> Adnoddau GwE> Pynciau Allgraidd neu cliciwch yma

Saesneg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/?lang=en>

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/>.

DWEUD EICH DWEUD A RHANNU ARFERION DA

Corffori leithoedd Rhyngwladol yn y Cwricwlwm cynradd: Pecyn Cychwynnol Ysgolion Arweiniol GwE

Ystod o fideos byrion wedi'u creu gan ein hysgolion Arweiniol ar amrywiaeth o gwestiynau am addysgu leithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion cynradd, a sut y gwnaethant gychwyn ar eu taith tuag at wireddu'r CiG.

Dyma'r themâu gaiff sylw:

- Map Ffordd Clir a Chryno i Gorffori leithoedd Rhyngwladol
- Meithrin Hyder mewn Addysgu leithoedd Rhyngwladol
- Corffori leithoedd yn y Cwricwlwm
- Corffori Llafaredd gydag leithoedd Ychwanegol mewn dosbarth cynradd
- Corffori Ffrangeg mewn gwahanol feysydd dysgu
- Corffori Amlieithrwydd
- IRh mewn lechyd a Lles: sut wyt ti'n teimlo (i'w ryddhau yn fuan)










Oes gennych chi syniadau eraill hoffech chi i ni eu datblygu, neu hoffech chi rannu rhywbeth?

Cysylltwch â'r tîm!

EIN PARTNERIAID

	<p>Amgaeaf Gylchlythyr Diweddaraf Ysgolion Cymru Tsieina</p> <p>https://mailchi.mp/602d1cd388de/waleschinaschools-autumn21-cymraeg.</p> <p>Gallwch ddarllen y newyddion diweddaraf am Tsieina yn ogystal â'r cyfleoedd sydd ar gael i'ch disgyblion ac i chithau!</p> <p>Os oes gennych gwestiynau neu ddiddordeb mewn cyflwyno Tsieinëeg yn eich ysgol, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i ucelev@caerdydd.ac.uk. I gael rhagor o wybodaeth am Brosiect Ysgolion Cymru Tsieina, gallwch hefyd ymweld â'r dudalen hon</p>
	<p>Lansio Cystadleuaeth Fideo Pop Ffrengig</p> <p>Mae'r Institut français du Royaume-Uni, gyda chefnogaeth Francophonie UK, yn adnewyddu ei gystadleuaeth fideo caneuon Ffrengig ar gyfer pob myfyriwr cynradd ac uwchradd yn system ysgolion y DU, gan gynnwys Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, ac Ynysoedd y Sianel. Gall athrawon ac ysgolion sydd â diddordeb mewn cymryd rhan gysylltu â'n tîm education@institut-francais.org.uk</p>
	<p>Diweddariad gan Routes Cymru: Tachwedd 2021</p> <p>Sesiynau gan Lysgenhadon Iaith Llwybrau at leithoedd Cymru – Rydym wedi hyfforddi ein Llysgenhadon iaith o Brifysgolion Caerdydd, Bangor, Caerdydd Metropolitan, Abertawe ac Aberystwyth ac maent yn barod i gynnal sesiynau ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd yng Nghymru. Os hoffech wneud cais ar gyfer sesiwn yna ewch i'n safle we i gofrestru.</p>
	<p>Llwybrau at leithoedd Cymru :</p> <p>http://routesintolanguagescymru.co.uk/</p>
	<p>Institut français:</p> <p>https://ifprofs.org/uk</p>
	<p>Goethe Institute:</p> <p>https://www.goethe.de/ins/gb/en/new.html</p>
	<p>Consejería Española:</p> <p>https://www.educacionyfp.gob.es/reinounido/en_GB/oficina-sycentros.html</p>

	Confucius Institute: https://www.bangor.ac.uk/confucius-institute/
	The British Council: https://wales.britishcouncil.org/en
	Mentora ITM/ Mentoring MFL: https://cymraeg.mflmentoring.co.uk/
A HEFYD	
	Power Language: https://powerlanguage.school/
	Primary Languages Network: https://primarylanguages.network/
	Linguascope: https://www.linguascope.com/
	Association for Language learning: https://www.all-languages.org.uk/

CYSYLLTWCH A NI

Tîm Dyfodol Byd-eang GwE:

Arweinydd Dyfodol Byd-eang GwE: Stephanie Ellis-Williams
stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

Ysgol	ALI	Cydllynydd IRh	Cyfeiriad e-bost cyswllt
Beddgelert	Gwynedd	Esyllt Williams	EsylltLlewelynWilliams@gwynedd.llyw.cymru ; WilliamsE1863@hwbcymru.net ;
Ysgol Golftyn CP Clawdd Offa	Sir Y Fflint Sir Ddinbych	Claire Thompson Angharad Lloyd Georgina	ThompsonC50@hwbbmail.net ; BeckA6@hwbcymru.net ;
St Brigids	Sir Ddinbych	Newnham	newnhamg1@hwbcymru.net ; 6602162_pennaeth.pensarn@Hwbcymru.net ; Robertsd402@hwbcymru.net ;
Penysarn Ysgol Gynradd Fictoria	Ynys Môn Wrecsam	Delyth Roberts Carole Seaton	seatonc3@hwbcymru.net ; williamsj99@hwbcymru.net ; j.williams321@btinternet.com ; d.graham@bryndeva.co.uk ; BdheaD@hwbbmail.net ;
Tudweiliog	Gwynedd	Julie Williams	
Bryn Deva	Sir Y Fflint	Danae Graham	

Deganwy

Conwy

Lisa Eardley

[EardleyL9@hwbmail.net;](mailto:EardleyL9@hwbmail.net)

Bwletin wythnosol GwE <https://www.gwegogledd.cymru/newyddion/bwletin/>
Twitter GwE: @GwEGogleddCymru